**Disgrifiad swydd: Swyddog Cefnogi Gofalwyr**
Cysylltu gofalwyr â chymorth a gwasanaethau

**Cyflog:** £21,269 - £22,571

**Lleoliad:** Parc Menai, Bangor

**Oriau gwaith:** 37 awr

**Yn atebol i:** Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr

## Dyletswyddau Penodol

1. Cael a chynnal gwybodaeth leol dda am y gymuned, y trydydd sector a'r gwasanaethau statudol, contractau perthnasol ac am lwybrau cyfeirio ac atgyfeirio; gweithio'n agos â swyddogion sefydliadau allanol i gael gafael ar wybodaeth a help er mwyn cynorthwyo gofalwyr.

2. Derbyn, rheoli ac ymateb i ymholiadau ac atgyfeiriadau; gweithio'n agos â chydweithwyr i drafod, blaenoriaethu ac ymdrin ag achosion.

3. Asesu anghenion gofalwyr a phenderfynu ar y wybodaeth a'r cymorth mwyaf priodol i'w darparu a'r camau gweithredu mwyaf priodol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd.

4. Cyfeirio at asiantaethau allanol.

5. Cynnal ein systemau monitro a gwerthuso er mwyn cofnodi'r gwaith sydd wedi'i wneud a chanlyniadau gwaith â gofalwyr.

6. Bod yn gyfrifol am dasgau gweinyddol sy'n ymwneud â'r dyletswyddau uchod.

7. Darparu adroddiadau ysgrifenedig ac ar lafar fel y bo'u hangen ar y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

8. Mynychu cyfarfodydd a chyrsiau hyfforddi fel y bo angen, gan gynnwys cyfarfodydd staff a sesiynau goruchwylio.

**Dyletswyddau Cyffredinol**

1. Bod yn ymroddedig i waith Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a hyrwyddo gwaith tîm a chydweithio effeithiol ar draws maes iechyd, gofal cymdeithasol a’r trydydd sector.

2. Gweithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r mudiad ac yn unol â gwerthoedd, cenhadaeth a chynlluniau strategol y mudiad.

3. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill y medrai’r Prif Swyddog ofyn i chi eu gwneud, sy’n gymesurol â’r swydd hon.